Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Cymunedau**
Dyddiad y Cyfarfod	**12 Mawrth 2020**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Y Cyng. Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau)/Emlyn Jones (Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, a Chefn Gwlad)**
Awdur yr adroddiad	**Huw Rees (Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth)**
Teitl	**Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion a wnaed yn Adolygiad Tân Mynydd Llantysilio**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Monitro cynnydd a wnaed o safbwynt gweithredu argymhellion Adolygiad Tân Mynydd Llantysilio ar y cyd ag asiantaethau a sefydliadau partner y Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hwn o safbwynt yr adolygiad i dân Mynydd Llantysilio yn haf 2018. Adroddiad diweddaru yw hwn a does dim angen dod i unrhyw benderfyniad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd a gwneud sylwadau'n unol â hynny.

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn dilyn Adolygiad y Pwyllgor Craffu i dân Llantysilio, awgrymwyd nifer o argymhellion. Caiff y rhain eu hamlinellu yn Atodiad 1 – *Tân Mynydd Llantysilio – Cynllun Gweithredu Monitro* a darperir datganiad cynnydd bras lle bo'n bosib. Priodolwyd nifer o'r argymhellion i bartneriaid allanol yn unigol neu ar y cyd, a dylanwad cyfyngedig sydd gan yr Awdurdod o ran eu cynnydd. Mae'r Awdurdod wedi gofyn am ddiweddariad gan Bartneriaid yn yr achosion hyn. Mae'r ymatebion hyn a ddarparwyd wedi eu dogfennu yn Atodiad 1.

Isod mae dolen at adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/ynglyn-ar-cyngor/Pwyllgor-Craffu-Cymunedau-adroddiad-terfynol-tan-Mynydd-Llantysilio.pdf

4.2 Cyfarfu Cyngor Sir Ddinbych, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ym mis Tachwedd 2019 i adolygu rhai o'r argymhellion ac i drafod cyd gyllido swydd Swyddog Rhostiroedd, gweithdrefnau atal tanau gwyllt a rheoli rhostiroedd yn well. Nid oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gallu cyfrannu tuag at y swydd ond nodwyd y byddent yn bartneriaid mewn unrhyw fenter i atal a rheoli tanau. Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gadarnhaol o safbwynt cyllido swydd ar y cyd bryd hynny, a nawr gellir cadarnhau y byddant yn cyfrannu £20,000 y flwyddyn am y 3 blynedd nesaf tuag at y swydd. Nid oedd cael unrhyw ymrwymiad cyllidol pellach yn bosib ar hyn o bryd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi cyflwyno cais i'r Bwrdd Cynllun Corfforaethol am y £84,000 oedd yn weddill dros 3 blynedd er mwyn ariannu'r swydd. Bydd y Bwrdd yn ystyried yr achos fis Ebrill 2020.

4.3 Yn dilyn adroddiad a gomisiynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru – *Asesiad Cychwynnol Tân Mynydd Llantysilio ac Argymhellion Rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig* (eisoes wedi ei gylchredeg i'r Pwyllgor ac yn Atodiad 3), mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi cwrdd ar y safle i drafod opsiynau ar gyfer adfer y rhostir. Mae'r opsiynau hyn yn amrywio yn dibynnu ar leoliad, ac mae costau hefyd yn amrywio. Bydd canlyniadau ar gyfer gweithredu'r adroddiad yn cael eu hystyried pan fydd y Swyddog Rhostiroedd yn ei swydd.

4.4 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi cychwyn blaenoriaethu ardaloedd ar gyfer ymateb, gan dalu sylw arbennig i ardaloedd oedd yn agored i niwed pellach o ganlyniad i ddŵr yn llifo.

4.5 Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau peth cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cychwyn gwaith adfer y gaeaf hwn. Mae peth gwaith adfer wedi digwydd ar ardal dreialu ar Moel y Faen – ar ochr ddwyreiniol y Mynydd.

4.6 Ar gais yr Aelodau, anfonwyd llythyr at Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019 a chafwyd ymateb gan y Gweinidog yn yr un mis (Atodiadau 4a, 4b a 4c). Hyd yma nid yw'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir wedi eu cyhoeddi.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae testun yr adroddiad hwn yn ffitio o fewn Blaenoriaethau Cymunedau Cryf ac Amgylchedd y Cynllun Corfforaethol. Bydd rheoli'r rhostir yn well ac atal tanau gwyllt yn fwy llwyddiannus yn cael effaith gadarnhaol ar gynefinoedd naturiol a bioamrywiaeth. Bydd rhostir a reolir yn well a gweithdrefnau atal tanau gwyllt yn gwella amodau gwaith ffermwyr da byw a pherchnogion tir ac yn cynyddu hyder a gwytnwch y gymuned mewn unrhyw achos o dân.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â swydd Swyddog Rhostiroedd wedi eu manylu yn Adran 4. Dylai penodi i'r swydd a datblygu gwell gwaith partneriaeth o amgylch rheoli rhostiroedd ac atal tanau gwyllt gael effaith gadarnhaol ar Wasanaethau eraill Cyngor Sir Ddinbych. Dylai'r holl bartneriaid elwa o ddatblygu systemau effeithiol i reoli tanau gwyllt ac arweinir y gwaith hwn gan y Gwasanaeth Tân. Rhagwelir y bydd y swydd hefyd yn helpu i gydlynu gwell cyfathrebu a gweithdrefnau rhwng partneriaid.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Ni chwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad cynnydd hwn.

7.2 Fodd bynnag, cwblhawyd Asesiad Effaith ar gyfer Achos Busnes y Cais am Swyddog Rhostiroedd a gyflwynwyd i Fwrdd y Cynllun Corfforaethol. Atodir yr asesiad fel Atodiad 2.

8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn seiliedig ar argymhellion o Bwyllgor Craffu Cymunedau blaenorol gyda chyfraniadau gan y cyhoedd a sefydliadau partner.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Croesawir y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i ariannu rhan o'r swydd Swyddog Rhostiroedd. Mae elfen Cyngor Sir Ddinbych o'r cyllid wedi ei gynnwys yn y rhagamcanion ariannol ar gyfer ariannu'r Cynllun Corfforaethol a bydd yn cael ei lofnodi gan yr Uwch Dîm Rheoli yn yr wythnosau nesaf.

10 Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Adroddiad diweddaru yw hwn heb unrhyw benderfyniadau / argymhellion, felly does dim risgiau'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

10.2 Fodd bynnag, bydd risgiau'n gysylltiedig â pheidio darparu'r argymhellion a amlygwyd gan yr ymchwiliad. Mae'r rhain yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i'r canlynol; cynnydd yn y nifer o danau gwyllt a'u cryfder (gyda pheryglon cysylltiedig i fywyd a cholli eiddo a bywoliaeth), cynnydd yn y gostyngiad o (a cholled parhaol o bosib) gynefinoedd rhostir a gostyngiadau cysylltiol mewn rhywogaethau a bioamrywiaeth; colli bywoliaeth yn y gymuned ffermio, sgiliau gwledig, amrywiaeth diwylliannol a ffyrdd traddodiadol o fyw. Gellir lleihau'r risgiau posib hyn drwy gydlynu y broses o reoli tanau gwyllt, ad adfer a gwella rheolaeth o'r rhostiroedd.

11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Craffu o ran ystyried materion sy'n effeithiol ardal y Cyngor neu ei breswylwyr, datblygu ac adolygu polisïau a chyflawni amcanion polisi.